

# NEWYDDLEN

## Swyddfeydd Newydd y Cyngor - Coed Pella



### RHIFYN 6 – MAI 2018

Gyda'r Gwanwyn wedi cyrraedd, mae datblygiad swyddfeydd Coed Pella'n datblygu'n dda ac mae Prif Gontractwr Muse Development, Bowmer & Kirkland tua 6 mis i ffwrdd o drosglwyddo'r swyddfeydd gorffenedig i Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.



*Uchod: Coed Pella ym mis Ebrill 2018*

Mae cyffro ymysg staff a chynghorwyr am y symud ac mae arwyddion hyd yn oed cyn cwblhau'r adeilad (diwedd mis Medi 2018) bod busnesau lleol yn bwriadu buddsoddi a manteisio ar gyfleoedd o gael cannoedd o aelodau staff yno. I weithwyr y Cyngor a'r cyhoedd sydd o hyd yn ansicr am amcanion a rhesymu'r prosiect, neu mae ganddynt bryderon neu gwestiynau, mae cyfle i ofyn cwestiynau drwy eu Rheolwr Atebol, ar wefan Conwy neu'n uniongyrchol gyda Rheolwr Prosiect y Cyngor.

Yn fuan iawn, bydd defnyddio hen adeiladau fel y swyddfeydd ar Ffordd Dinerth yn Llandrillo yn Rhos yn perthyn i'r gorffennol, ac mae'n bwysig cofio, gyda'r brydles yn dod i ben ar Ffordd Dinerth fis Rhagfyr, nid oedd gwneud dim byd yn opsiwn!

### YR AMGYLCHEDD CYWIR I FODERNEIDDIO

Bydd swyddfeydd newydd Coed Pella ar brydles am 40 mlynedd gyda dewis i brynu ar y diwedd, a bydd yn datrys risg sylweddol oherwydd terfyn y brydles ar Ffordd Dinerth, yn ogystal â dyledion corfforol ac ariannol swmpus ar safleoedd eraill. Bydd y swyddfeydd newydd yn chwarae rôl allweddol yn y rhaglen ehangach, wrth i Conwy barhau i foderneiddio a darparu'r amgylchedd cywir i staff gynnig y gwasanaethau gorau posib. Ni ellir enwi Coed Pella fel prosiect adeiladu'n unig, ond mae'n rhan o'r broses foderneiddio – gan fagu gwydnwch yn y ffordd mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau.



*Uchod: Arweinydd y Cyngor, Y Cynghorydd Gareth Jones ar ymweliad safle diweddar (llun gan David Powell, y Daily Post).*

Efallai y bydd canol tref Bae Colwyn yn elwa'n fawr o bresenoldeb staff y Cyngor, ond bydd swyddfeydd Coed Pella'n gwasanaethu Conwy gyfan. Yn ychwanegol at ddarparu nifer o swyddfeydd i wasanaethau croeso, bydd Coed Pella hefyd yn darparu swyddogaethau arbenigol sy'n cael eu cynnig i breswylwyr Conwy a thu hwnt. Bydd Camerâu Cylch Cyfun a Galw Gofal yn cael

eu symud i safle Coed Pella gyda Chanolfan Ymateb i Larymau modern, a pan gaiff ei chwblhau a'i achredu, dyma fydd yr unig gyfleuster i wasanaethu'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn galluogi i Gonwy ddarparu gwasanaethau ychwanegol i bobl Conwy a rhanbarth Gogledd Cymru, ac mae'n cynnig potensial i gynhyrchu incwm.

*"Bydd cael sawl Gwasanaeth gyda channoedd o staff ar un safle yn darparu amgylchedd gydag arloesi a chydweithio ar draws adrannau yn ogystal â theimlad cryfach o Dîm Conwy. Bydd hyn felly o fantais i breswylwyr ar draws Conwy. Bydd Coed Pella'n darparu amgylchedd gyda chyfleoedd gwell i rwydweithio a rhannu syniadau rhwng staff, rhywbeth sy'n cael ei gyfyngu ar hyn o bryd oherwydd safleoedd ar wasgar a diffyg manau i gydweithio. Mae iechyd a lles staff yn allweddol, yn ogystal â'r gallu i ddenu a chadw staff, a bydd Coed Pella'n gydran allweddol wrth wneud hyn"* meddai'r Cynghorydd Gareth Jones, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

### DATBLYGIAD Y SAFLE

Mae sawl aelod o'r cyhoedd wedi dweud eu bod wedi cael eu synnu gan gyfradd y newid yng Nghoed Pella, wrth i'r gwaith o osod ffenestri a gorchuddio barhau i roi teimlad eiconig, modern ac arloesol i'r adeilad. Nid yw'r dyluniad yn un nodweddiadol o adeilad gweinyddol y Cyngor, nac ychwaith yw'r dyluniad "oddi ar y silff" sy'n adlewyrchu nifer o adeiladau swyddfeydd ar draws y DU.

*"Rydym yn agos at gwblhau'r gwaith o osod ffenestri i'r lefelau uwch ac mae'r atriwm wedi'i gwblhau sydd wedi rhoi dimensiwn newydd i'r gofod mewnol gyda'r holl olau dydd naturiol sy'n llifo i mewn. Mae'r lloriau a'r nenfydau'n cymryd siâp; mae'r gofod yn trawsnewid o fod yn safle adeiladu i fod yn swyddfa. Mae'r cyflenwadau o Ffordd Conwy a'r symudiadau ar ffordd brysur wedi bod yn her ac rydym yn gwerthfawrogi amynedd y gymuned"* meddai Mark Hooson, Rheolwr Prosiect B&K.

Mae nifer sylweddol o staff eisoes wedi cerdded o amgylch Coed Pella ac wedi gweld y cynnydd ar y safle. *"Rydym wedi cynnal nifer o ymweliadau safle dros y misoedd diwethaf gydag Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor, Rheolwyr Canol yn ogystal â nifer o aelodau staff sy'n ymwneud â'r Rhaglen Foderneiddio ehangach. Beth nad ydyn nhw wedi ei weld yw ansawdd a maint y gofod sy'n*

*bell iawn o beth maent yn eu defnyddio ar hyn o bryd. Bydd y gofod o gymorth gyda rhyngweithio o fewn Gwasanaethau, rhwng Gwasanaethau a gyda Chwsmeriaid. Wrth i bob wythnos basio, mae'r ffurfwedd fewnol yn datblygu i ffurfio'r swyddfa flaengar rydym yn ei dymuno"* meddai Bleddyn Evans, Rheolwr Prosiect Cyngor Conwy.



Uchod: Lloriau yn cael eu codi ar lefelau uwch.

Mae'r Cyngor wedi cydweithio'n agos gyda Bowmer & Kirkland i drefnu ymweliadau safle gan weld hyn fel cyfle i staff gael dealltwriaeth gynnar a theimlad o'u hamgylchedd gwaith newydd, fisoedd cyn symud i mewn. Mae hyn hefyd yn rhoi'r cyfle iddynt ofyn cwestiynau ynghylch datblygiad eu man gwaith newydd, neu am y broses symud i mewn ac yna gweithredu mewn gweithle newydd.

Bydd yr ymweliadau safle hyn yn parhau dros y misoedd nesaf gyda chyfle i fwy o staff gerdded y lloriau, ac wrth i'r gwaith ddatblygu bydd staff yn cael teimlad o beth i ddisgwyl yn yr hydref.

*" Mae ymgysylltu ac ymgynghori â staff wedi bod yn rhan allweddol o'r prosiect. Rydym wedi rhoi cyfle i staff ystyried y dyluniadau drafft 'nôl yn 2016, pan roedd cyfle iddynt roi sylwadau a herio rhai o'r cynigion. Mae'r ymweliadau safle, ddwy flynedd yn ddiweddarach, yn rhan o'r drafodaeth barhaus o hysbysu a pharatoi staff am eu gweithle newydd. Mae'r agwedd gadarnhaol a'r cyffro am symud i mewn wedi bod yn wych gan y rhai cafodd y cyfle i fynd ar y safle. Ein nod erbyn yr haf yw bod pob aelod o staff sy'n symud i mewn i Goed Pella wedi cael y cyfle i gerdded y lloriau."* ychwanegodd Bleddyn Evans.

Mae nifer o Benaethiaid Gwasanaethau a Hyrwyddwyr Gwasanaeth eisoes wedi cerdded ar loriau Coed Pella



ac yna wedi rhannu'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar y safle gyda'u staff, yn ogystal â rhannu eu teimladau a'u barn am y gweithle newydd.

*Mae'r adeilad yn syfrdanol. Rydw i, ynghyd â nifer o staff o'm maes Gwasanaeth wedi cael cyfle i ymweld â Choed Pella a holi cwestiynau i'r Tîm Prosiect. Mae'r posibilrwydd o gydlafurio mewnol yn ogystal â phartneriaid eraill yn gyffrous iawn, a gellir fod o gymorth wrth wella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy i bobl Conwy. Mae staff Gwasanaeth Datblygu Cymunedol yn gyffrous am gael bod yn un o'r gwasanaethau cyntaf i symud i mewn i Goed Pella yr hydref hwn*" meddai Marianne Jackson, Pennaeth Gwasanaeth Datblygu Cymunedol.



Uchod: Aelodau o Gyngor Tref Bae Colwyn

Nid staff yn unig sydd wedi rhoi eu hetiau caled a'u siacedi llachar ymlaen yn ddiweddar. Daeth Cyngor Tref Bae Colwyn i ymweld â'r safle ar brynhawn oer a gwyntog ym mis Chwefror, a bu cyfle i weld cynnydd ar beth yw'r datblygiad mwyaf yn eu tref am amser hir iawn. Mae'r Cyngor Sir wedi bod yn diweddarau'r Cyngor Tref yn rheolaidd drwy fynd i gyfarfodydd blynyddol y Cyngor i ddarparu gwybodaeth ar gynnydd allweddol i Gynghorwyr Tref.

*"Rydym yn hapus iawn o gael y cyfle i weld tu mewn i'r adeilad a phrofi'r cynnydd. Bu cyfathrebiad da rhwng y Tîm Prosiect a'r Cyngor Tref ac rydym wedi cael y newyddion diweddaraf fel ein bod yn gallu ateb unrhyw bryderon gan breswylwyr. Mae nifer ohonom yn edrych ymlaen at gael edrych o gwmpas eto ar ôl cwblhau'r*

*adeilad"* dywedodd Jeff Pearson, Maer Cyngor Tref Bae Colwyn.

Daeth Darren Millar, Aelod Seneddol Gorllewin Clwyd i'r safle yn ogystal â'r Arglwydd Dafydd Ellis Thomas AC, Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon ac roedd gweledigaeth y Cyngor i foderneiddio ei ffordd o weithio wedi creu argraff arnynt, yn ogystal â'r cyfleoedd i gwmnïau lleol i weithio ar y safle.

*"Rydw i'n falch iawn o weld y cynnydd ym Mae Colwyn ar ffordd mae'r datblygwyr wedi bod yn ymgysylltu gyda busnesau lleol fel rhan o'r cadwyn gyflenwi. Mae'r cwmni Evadx o Fae Cinnel yn enghraifft dda. Fe wnaethant a chodi'r ffrâm ddur ac o ganlyniad maent yn trafod cyfleoedd busnes er budd eu hunain a Bowmer & Kirkland. Mae'r economi lleol hefyd yn manteisio o berthnasau fel hyn gyda chontractwyr a staff yng Ngogledd Cymru yna'n gwario eu pres o fewn eu cymunedau lleol."* meddai Darren Millar, AC.

## YSTAFELLOEDD GYDA GOLYGFA

Mae'r rhan fwyaf o bobl sydd wedi ymweld â Choed Pella wedi cael eu syfrdanu gan olygfeydd o Fae Colwyn ac i'r gorllewin tuag at Llandrillo yn Rhos, Bae Penrhyn a Llandudno, ac yna i'r Dwyrain tuag at y Rhyl a thu hwnt ar draws Arfordir Gogledd Cymru.

Mae sawl un wedi gwneud sylw ar saerniaeth unigryw y Dref sy'n gallu cael ei weld o'r lloriau uchaf, nad ydyw mor amlwg o'r llawr gwaelod. Mae'r golygfeydd tuag at goed Pwllcrochan o gefn yr adeilad yn rhywbeth a fydd yn ychwanegu diddordeb hefyd.



Uchod: yr olygfa i'r gorllewin; Trwyn y Fwch yn y cefndir.



Uchod: yr olygfa i'r dwyrain; Mynydd Marian yn y cefndir.

*“Mae gan Fae Colwyn hanes cyfoethog ac wedi bod yn destun nifer o gyfnodau o ddatblygu, rhai yn dda, a rhai ddim cystal dros y blynyddoedd. Mae nifer o adeiladau sy'n adlewyrchu hanes y dref fel canolbwynt masnach, gweinyddu cyhoeddus, addysg a thwristiaeth. Mae'n dref sydd wedi croesawu newid sylweddol dros y 200 mlynedd diwethaf. Mae'rwaith celf disgyblion ysgolion lleol ar balisau'r safle yn adlewyrchu hyn. Mae Coed Pella yn garreg filltir allweddol yn esblygiad y dref ac rydw i'n credu y bydd Bae Colwyn yn chwarae rôl yn natblygiad y Sir a'r rhanbarth “ esbonia Bleddyn Evans.*

### **CONTRACTWR LLEOL YN DIOGELU CONTRACT**

Sefydlodd E Poppleton a'i Fab Cyf ym Mae Colwyn yn 1924 ac maent yn arbenigo mewn pibellwaith awyru o ddalenni metel ac maent yn falch o gyhoeddi eu bod wedi sicrhau prosiect Swyddfeydd Coed Pella y Cyngor gyda chontractwr Peirianeg A&B Cyf. Mae Poppletons yn ymgymryd â chontractau ar draws y DU a dywedodd eu Cyfarwyddwr, Tim Hopkinson *“Mae'n anrhydedd cael cynnal gwaith yn lleol, yn enwedig ar adeilad mor bwysig ac amlwg ym Mae Colwyn.”*

Mae Bowmer & Kirkland wedi cydweithio'n agos â'r gymuned busnes lleol sydd wedi rhoi cyfle i gwmnïau

lleol fel Poppleton i weithio ar y prosiect. Mae gwasanaethau Peirianyddol yn chwarae rôl bwysig mewn unrhyw brosiect adeiladu ac nid yw swyddfeydd newydd y cyngor yn eithriad, mae'r elfen pibellwaith awyru yn rhan sylweddol o'r gwaith adeiladu.

Sefydlwyd y cwmni yn 1924 ac roedd yn wreiddiol ar Ffordd Greenfield, Bae Colwyn cyn symud i Fochdre yn 1957. Yn 2004 fe symudodd o fewn Mochdre i gyfleuster cynhyrchu newydd. Mae Poppleton yn cyflogi tua 50 o bobl o fewn yr ardal leol yn cynnwys peirianwyr CAD/Contract, peirianwyr dalenni metel, timau gosod ar y safle a llawer o rolau eraill o fewn y cwmni. Mae pibellwaith awyru ar gyfer prosiectau megis Coed Pella yn cael ei weithgynhyrchu yn eu cyfleuster ym Mochdre sydd lai na 1.5 milltir i ffwrdd, gan ddefnyddio dulliau gweithgynhyrchu cynllunio drwy gymorth cyfrifiadur, sy'n cynnwys peiriannau torri plasma a ffurfio dalenni metel yn awtomatig. Mae tua 12 gosodwr wedi bod ar y safle dros y misoedd diwethaf ac mae'r Cyfarwyddwyr Nigel Edwards-Hughes a Tim Hopkinson yn nodi pwysigrwydd y prosiect yng Nghoed Pella. Dywedodd Mr Edwards-Hughes *“Gyda phrosiectau pwysig eraill y cawsom yn ddiweddar mae'n darparu sylfaen gadarn i'r cwmni i adeiladu ar gyfer y dyfodol ac rydym wedi bod yn edrych i ehangu ein tîm o staff y swyddfa ac ar y safle”.*

Mae'r Cynllun Gwerth Cymdeithasol rhwng y Cyngor a Muse Developments wedi darparu nifer o swyddi, rhaglenni economaidd, addysg a chymunedol dros yr 18 mis diwethaf, ac mae cydweithio gyda Poppletons, busnes lleol arall a chael bod yn rhan o'r prosiect wedi profi manteision eang ar sawl lefel.

### **YMDDIRIEDOLAETH Y TYWYSOG**

Mae Ymddiriedolaeth y Tywysog yn trefnu ail ddigwyddiad 'Mynd i Adeiladu' yng Nghoed Pella sy'n brosiect ar y cyd rhwng Muse Developments, Bowmer&Kirkland, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Ymddiriedolaeth y Tywysog. Bydd ar gyfer y rheiny rhwng 18 a 30 mlwydd oed nad ydynt mewn gwaith a bydd cyfle iddynt gael profi gweithio ar safle adeiladu. Mae'r rhaglen yn rhan o'r Cynllun werth Cymdeithasol a gymeradwyodd Muse, B&K a'r Cyngor. I gael rhagor o wybodaeth ewch i: [outreachwales@princes-trust.org.uk](mailto:outreachwales@princes-trust.org.uk)